

| | |
|--------------|---|
| CYFARFOD | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
| DYDDIAD | 27 Medi 2018 |
| TEITL | Cyfrifon Terfynol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 ac Archwiliad perthnasol |
| PWRPAS | Cyflwyno – <ul style="list-style-type: none"> • Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad; • Adroddiad 'ISA260' Deloitte; • Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1). |
| ARGYMHELLIAD | Ystyried a chymeradwyo'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyr |
| AWDUR | Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid |

1. CYFRIFON 2017/18

Bydd aelodau yn cofio cyflwynwyd Datganiad o Gyfrifon 2017/18 (cyn archwiliad) i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 28 Mehefin 2018, pryd bu craffu priodol.

2. ARCHWILIAD GAN DELOITTE AR RAN ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Nodwyd yng nghyfarfod Mehefin byddai'r cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan gwmni Deloitte, a chyflwynir yma adroddiad 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Deloitte.

3. DATGANIADAU ARIANNOL ÔL-ARCHWILIAD AM 2017/18

Cyflwynir yma hefyd y fersiwn derfynol (ôl-archwiliad) o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2017/18. Mae'r prif newidiadau ers y fersiwn cyn archwiliad wedi'u hamlinellu yn Atodiad 3 i adroddiad 'ISA260' Deloitte.

4. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried a chymeradwyo'r –

- Adroddiad 'ISA260' gan Deloitte ar gyfer Cyngor Gwynedd
- Datganiad o'r Cyfrifon 2017/18 (ôl-archwiliad)

5. LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH

Gofynnir i Gadeirydd y cyfarfod, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid, ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1 i adroddiad Deloitte) wedi i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gymeradwyo'r uchod.

6. TYSTYSGRIF YR ARCHWILYDD PENODEDIG

Wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Adrian Crompton) yn cyhoeddi'r tystysgrif ar y cyfrifon.